

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Y Cytundeb

ar gyfer sefydliadau sy'n cyfrannu at
ddiogelwch, iechyd, addysg a lles
cymdeithasol pobl Cymru

(yn cynnwys sefydliadau'r sector statudol,
y sector preifat a'r trydydd sector)

Fersiwn 4
(Mai 2013)



Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

Rhagair	3
1 Cyflwyniad a Diben	4
1.1 Cyflwyniad	4
1.2 Y Fframwaith ar gyfer Rhannu Gwybodaeth Bersonol	5
1.3 Gwybodaeth nas Cynhwysir yn Fframwaith WASPI	5
1.4 Mabwysiadu'r Cytundeb	6
2 Ymrwymiad y Sefydliadau	7
2.1 Cyflwyniad	7
2.2 Hawliau Defnyddwyr Gwasanaethau	7
2.3 Caniatâd	8
2.4 Unigolyn Dynodedig	9
2.5 Staff ac eraill sydd â mynediad at wybodaeth	9
2.6 Hysbysiad y Ddeddf Diogelu Data	10
2.7 Ceisiadau gwrthrych am wybodaeth	10
2.8 Rhyddid Gwybodaeth	10
2.9 Rheoli Cofnodion	11
2.10 Diogelwch Gwybodaeth	11
2.11 Codau Ymddygiad a Moeseg Broffesiynol	11
2.12 Achosion o ddiffyg cydymffurfio (sefydliad mewnol)	11
2.13 Achosion o ddiffyg cydymffurfio (sefydliad partner)	12
2.14 Pryderon a Chwynion	12
Atodiad 1 – Geirfa	13

Rhagair

Mae rhannu gwybodaeth bersonol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl ac yn diogelu'r unigolyn. Yn ôl Christopher Graham, Comisiynydd Gwybodaeth y DU, mae amharodrwydd i rannu gwybodaeth, hyd yn oed o dan amgylchiadau priodol, "yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r gwasanaeth cyhoeddus heddiw".

Yng Nghymru, rydym yn hynod falch ein bod wedi datblygu Fframwaith WASPI fel dull ymarferol profedig sy'n seiliedig ar ganiatâd o rannu gwybodaeth amlasiantaethol ar draws pob sector. Mae'n annog rhannu gwybodaeth bersonol mewn ffordd ddiogel, cyfreithlon a sicr ac yn helpu i sicrhau y gellir cydymffurfio â dyletswyddau statudol, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi datgan ei fod yn cefnogi WASPI yn llawn, gan gydnabod bod yna "fanteision gwirioneddol o fabwysiadu'r fframwaith ledled Cymru".

Mae'r pedwerydd fersiwn hwn wedi'i ddatblygu gan Fwrdd Cynghori ar Newid WASPI, grŵp traws-sector o arbenigwyr mewn llywodraethu gwybodaeth, ar ôl adolygu'r fframwaith blaenorol a chael adborth gan ddefnyddwyr. Ei nod yw darparu dull gwell, cliriach a symlach sy'n haws ei weithredu.

Mae mabwysiadu'r WASPI fel yr unig sylfaen ar gyfer rhannu a datblygu protocolau rhannu gwybodaeth pan fo'u hangen yn hanfodol ar gyfer meithrin y dulliau cyffredin a'r gwelliannau sydd eu hangen ledled gwasanaethau i sicrhau bod arferion yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn cynnal hyder y cyhoedd.

1 Cyflwyniad a Diben

1.1 Cyflwyniad

- 1.1.1 Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru fel yr 'unig' fframwaith rhannu gwybodaeth ar gyfer Cymru.
- 1.1.2 Diben y fframwaith yw galluogi sefydliadau darparu gwasanaethau, sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amddiffyn, diogelu a lles y cyhoedd yn ehangach, i rannu gwybodaeth bersonol berthnasol, ofynnol a phriodol rhyngddynt mewn modd cyfreithlon, diogel a gwybodus.
- 1.1.3 Mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r sefydliadau preifat hynny sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau perthnasol i'r sector cyhoeddus ac sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddu a lles cymdeithasol pobl Cymru. Yn arbennig, mae'n berthnasol i'r sefydliadau hynny sy'n cadw gwybodaeth am unigolion ac y gallent ei hystyried yn briodol neu'n angenrheidiol i rannu'r wybodaeth honno gydag eraill.
- 1.1.4 Bydd mabwysiadu'r fframwaith ledled Cymru yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol a deddfwriaethol ar gyfer datgelu gwybodaeth y gellir adnabod unigolyn drwyddi gan gynnwys y Ddeddf Gwarchod Data, y Ddeddf Hawliau Dynol a dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin. Mae hefyd yn galluogi cydymffurfio â Chod Ymarfer statudol y Comisiynydd Gwybodaeth ar Rannu Data.
- 1.1.5 Mae ei weithredu'n ychwanegu gwerth sylweddol at y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n eu derbyn.
- 1.1.6 Bydd yr amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion a gaiff eu datgan yn y Cytundeb hwn ac unrhyw ddogfennaeth ategol, yn berthnasol i'r holl staff priodol, y gweithwyr asiantaeth, y gwirfoddolwyr ac eraill sy'n gweithio ar ran y sefydliadau partner gan gynnwys asiantau ac iscontractwyr.
- 1.1.7 Caiff y Cytundeb hwn ei adolygu ddwywaith y flwyddyn, neu yn unol â'r hyn a nodir mewn deddfwriaeth, gan Fwrdd Cynghori ar Newid (CAB) WASPI. Sefydlwyd y CAB, sy'n cynnwys cynrychiolaeth briodol o randdeiliaid, i adolygu newidiadau y bydd yn ofynnol eu gwneud i'r fframwaith yn y dyfodol.

1.2 Y Fframwaith ar gyfer Rhannu Gwybodaeth Bersonol

- 1.2.1 Mae'r Cytundeb yn nodi'r ymrwymïadau sy'n ofynnol oddi wrth bob sefydliad er mwyn galluogi rhannu gwybodaeth bersonol. Rhaid ymrwymo iddo a hawlio perchnogaeth drosto ar y lefel uchaf.

Mae'n ddatganiad o'r egwyddorion a'r sicrhad sy'n rheoli'r gweithgaredd rhannu gwybodaeth. Mae'n sicrhau y gwarchodir hawliau pawb sy'n gysylltiedig â'r broses.

Bydd Protocolau Rhannu Gwybodaeth (PRhGau) a Chytundebau Datgelu Data (CDDau) yn cefnogi'r Cytundeb o fewn sefydliadau:

Mae PRhGau yn canolbwyntio ar y dibenion sy'n sylfaen i rannu setiau gwybodaeth penodol rhwng sefydliadau lluosog ar sail ddwy ffordd. Fe'u bwriedir at ddefnydd gweithredol ac maent yn nodi'r prosesau rhannu gwybodaeth arferol, y dibenion penodol a fodlonir, y bobl y maent yn effeithio arnynt, y pwerau deddfwriaethol perthnasol, pa ddata a rennir, y prosesau caniatâd dan sylw, unrhyw weithdrefnau gweithredol sy'n ofynnol a'r broses adolygu.

Mae CDDau yn darparu'r un egwyddorion sylfaenol i sefydliadau partner lynu atynt ond maent yn canolbwyntio ar drosglwyddo gwybodaeth un ffordd arferol, fel arfer rhwng dau sefydliad.

- 1.2.2 Mae amrywiol ddogfennau ategol wedi cael eu datblygu i gynorthwyo sefydliadau i weithredu'r fframwaith ac maent ar gael ar wefan WASPI www.waspi.org

Mae cymorth pellach ar roi fframwaith WASPI ar waith i'w gael gan Dîm Integreiddio a Datblygu Gwasanaethau WASPI.

1.3 Gwybodaeth nas Cynhwysir yn Fframwaith WASPI

- 1.3.1 O dan fframwaith WASPI, nid yw hi'n ofynnol i dderbyn PRhGau na CDDau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth os ystyrir bod y wybodaeth o natur ad-hoc neu nad yw'n codi'n aml. Fodd bynnag, rhaid i sefydliadau ystyried y materion cydymffurfio perthnasol yn unol â Chod Ymarfer Rhannu data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- 1.3.2 Yn ogystal, ceir dau gategori gwybodaeth eang arall sy'n gysylltiedig â Defnyddwyr Gwasanaethau y caiff sefydliadau eu rhannu heb fod angen protocolau a chytundebau, sef:

Gwybodaeth Gyfun (Ystadegol)

Defnyddir gwybodaeth reoli a chyfun i gynllunio a monitro cynnydd y sefydliad o safbwynt cyflenwi gwasanaethau. Mae hwn, yn gyffredinol, y tu allan i gwmpas Deddf Diogelu Data 1998 ar y sail na fyddai modd adnabod unigolyn byw oddi wrth y cyfryw ddata.

Gwybodaeth Ddienw ac Amhersonol

Gwybodaeth y tynnwyd ohoni'r holl wybodaeth bersonol er mwyn ei gwneud yn ddiennw ac felly y tu allan i gwmpas Deddf Diogelu Data 1998.

- 1.3.3 Rhaid cymryd gofal, gyda'r holl wybodaeth gyfun, amhersonol a diennw, er mwyn sicrhau nad yw'n bosibl adnabod unigolion e.e. mewn ardaloedd lefelau isel o ran dwysedd poblogaeth/achosion, gan y byddai hyn yn parhau'n wybodaeth bersonol.

1.4 Mabwysiadu'r Cytundeb

- 1.4.1 Cyfrifoldeb Prif Weithredwr neu Brif Swyddog naill ai corff statudol, sefydliad sector preifat neu sefydliad trydydd sector yw mabwysiadu'r Cytundeb hwn yn ffurfiol.
- 1.4.2 Rhaid i bob sefydliad sy'n llofnodi gytuno i gefnogi mabwysiadu, lledaenu, gweithredu, monitro ac adolygu'r Cytundeb a'i ofynion yn unol â'i safon rheoli gwybodaeth awdurdodedig ei hun ac unrhyw gyfryw safon arall y cyd-gytunwyd arni a/neu weithdrefnau a pholisïau gweithredol.
- 1.4.3 I hwyluso hyn, bydd pob sefydliad yn dynodi "Unigolyn Dynodedig" a fydd â'r cyfrifoldeb hwn.
- 1.4.4 Rhaid i'r Unigolyn Dynodedig fodloni ei hun y bydd ei sefydliad yn gweithio tuag at yr egwyddorion a'r sicrwydd a amlinellir yn y Cytundeb wrth fabwysiadu'r safonau cytunedig a'r arferion da.
- 1.4.5 Mae 'Rhestr Wirio Hunanasesu' ar gael ar wefan WASPI i helpu gyda'r broses hon. Gall y rhestr wirio hon gael ei defnyddio fel dogfen adolygu hefyd.
- 1.4.6 Dylai'r Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog lenwi ac arwyddo'r 'Datganiad Derbyn a Chyfranogi' i gadarnhau bod y Cytundeb wedi'i fabwysiadu. Mae copi o'r datganiad hwn ar gael ar wefan WASPI a dylid ei ddychwelyd at Dîm Datblygu ac Integreiddio Gwasanaethau WASPI ar ôl ei gwblhau.

2 Ymrwymiad y Sefydliadau

2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r prif ymrwymadau y bydd pob llofnodwr yn eu gwneud trwy fabwysiadu'r Cytundeb. O'u gweithredu'n llawn dylai'r rhain sicrhau bod y modd y mae'r sefydliad yn trin gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol ac ag arferion da.

2.2 Hawliau Defnyddwyr Gwasanaethau

2.2.1 Bydd pob sefydliad yn cydymffurfio â hawliau'r defnyddiwr gwasanaethau mewn ffordd deg a chyson ac yn unol ag unrhyw ofynion, rheoliadau neu ganllawiau deddfwriaethol penodol. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i hwyluso'r gwaith diogelu ac i ymarfer yr hawliau hyn a hawliau eraill.

2.2.2 Rhaid i bob sefydliad fod yn glir ac yn agored gyda defnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â sut y defnyddir eu gwybodaeth. Yn gyffredinol, dylai defnyddiwr gwasanaethau gael gwybod pa sefydliad sy'n casglu a chofnodi'r data, y rhesymau dros wneud hynny neu'r dibenion (gan gynnwys unrhyw ddibenion dadansoddol neu ystadegol) ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae defnyddiwr gwasanaethau ei hangen o dan yr amgylchiadau er mwyn sicrhau bod ei wybodaeth yn cael ei phrosesu'n deg. Yng nghyd-destun PRhGau neu CDDau, mae gwybodaeth ychwanegol o'r fath yn debygol o gynnwys dweud enwau unrhyw unigolion neu sefydliadau y gall data'r defnyddwyr gwasanaethau gael ei rannu â nhw. Gelwir hyn yn 'Hysbysiad Prosesu Teg neu Hysbysiad Preifatrwydd' ac mae'n cydymffurfio ag Egwyddor 1 Deddf Diogelu Data 1998.

2.2.3 Rhaid i bob sefydliad hefyd hysbysu'r defnyddwyr gwasanaethau o'u hawliau ychwanegol, o safbwynt deddfwriaeth a sut y gellir ymarfer yr hawliau hyn. Bydd hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth briodol er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau allu ymarfer eu hawliau orau e.e. darparu gwybodaeth mewn fformatiau neu ieithoedd amgen, darparu cefnogaeth ar ffurf eiriolaeth neu eu cynorthwyo i wneud cais gwrthrych am wybodaeth dan Adran 7 o Ddeddf Diogelu Data 1998.

2.2.4 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn gyffredinol yr hawl i wrthwynebu, o dan Adran 10 o Ddeddf Diogelu Data 1998, i wybodaeth bersonol benodol gael ei defnyddio a'i datgelu ac mae angen i sefydliadau

cyfranogol eu gwneud yn ymwybodol o'r hawl hon. Ni ddylid tybio bod defnyddwyr gwasanaethau yn fodlon i'w gwybodaeth bersonol gael ei defnyddio at ddibenion heblaw am y rheini sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwasanaethau a gânt gan y sefydliad y gwnaethant ddarparu eu gwybodaeth iddo.

- 2.2.5 Mae gan yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau yr hawl i ddisgwyl y bydd gwybodaeth a ddatgelir ganddynt neu gan bartïon eraill amdanynt wrth sefydliad, yn cael ei diogelu, ei rheoli a'i phrosesu gyda phreifatrwydd a chyfrinachedd i raddau priodol. Er hynny, mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau hawliau i atal datgelu eu gwybodaeth bersonol er y gellid diystyru'r rhain dan amgylchiadau penodol yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r gyfraith gyffredin.

2.3 Caniatâd

- 2.3.1 Rhaid hysbysu'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau o'r amgylchiadau pryd y bydd eu caniatâd, wedi'i roi ar sail penderfyniad cytbwys, yn ofynnol cyn y gellir rhannu eu gwybodaeth bersonol. Rhaid i'r manylion a ddarperir gynnwys pa wybodaeth bersonol a gofnodir a pham, sut y caiff ei defnyddio yn y dyfodol ac am ba hyd y mae'n debygol o gael ei chadw. Dylid esbonio wrth y defnyddwyr gwasanaethau hefyd ganlyniadau posibl gwrthod neu dynnu caniatâd yn ôl a'r amgylchiadau eithriadol pryd y gellid o bosibl gwneud penderfyniad i rannu gwybodaeth heb eu caniatâd.
- 2.3.2 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau'r hawl i wrthwynebu i wybodaeth a roddant yn gyfrinachol gael ei datgelu wrth eraill ar ffurf sy'n golygu y gellir eu hadnabod, hyd yn oed os yw'r sawl yn darparu gwasanaethau neu ofal hanfodol.
- 2.3.3 Hysbysir y defnyddwyr gwasanaethau bod ganddynt yr hawl i gyfyngu ar y wybodaeth a ddatgelir yn unol â'u dewisiadau, ac eithrio pryd bynnag y mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.
- 2.3.4 Ni ddylid rhannu gwybodaeth heb ganiatâd oni bai o dan amgylchiadau lle mae modd ei gyfiawnhau ac os yw'n bodloni gofynion deddfwriaeth berthnasol, y gyfraith gyffredin ac unrhyw ganllawiau cyfredol.
- 2.3.5 Rhaid i resymau sy'n arwain at benderfyniad i fwrw ymlaen â datgelu heb ganiatâd gael eu cofnodi'n llawn a chael eu ffeilio yng nghofnod y defnyddiwr gwasanaethau. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid i sefydliadau cyfranogol hysbysu'r defnyddiwr gwasanaethau o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto a nodi ar ba sail gyfreithiol y mae'r datgelu yn cael ei ganiatáu neu'n ofynnol.
- 2.3.6 Bydd yn rhaid i bob sefydliad cyfranogol sefydlu a gweithredu proses gwneud penderfyniadau briodol sy'n gydnaws â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA).

2.3.7 Yn dilyn cychwyn yr MCA, os gwelir, am resymau analluedd meddyliol, fod defnyddiwr gwasanaethau 16 oed neu drosodd yn methu â rhoi caniatâd ar gyfer rhannu gwybodaeth/datgeliad penodol, ni chaiff unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth bersonol amdanynt heb ganiatâd ond cael ei wneud os yw er lles gorau'r defnyddiwr gwasanaethau hwnnw.

Rhaid i'r camau i ganfod lles gorau unigolyn gael eu cymryd yn unol ag Adran 4 o'r MCA 2005 a Phennod 5 o'r Arweiniad i'r MCA, mae hwn hefyd yn datgan pwy y gall y 'penderfynwr' perthnasol fod'.

Bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad o safbwynt lles gorau'r defnyddiwr gwasanaethau yn ystyried:

- dymuniadau'r defnyddiwr gwasanaethau fel y'u mynegwyd yn flaenorol, gan gynnwys unrhyw rai a gofnodwyd mewn Blaen Gyfarwyddeb ddilys;
- barn unrhyw warcheidwad cyfreithlon neu unigolyn sy'n meddu ar Atwrneiaeth Arhosol ddilys;
- barn gofalwr neu unigolyn arall sy'n agos at y defnyddiwr gwasanaethau, gan gynnwys gofalwyr cyflogedig;
- barn prif weithiwr proffesiynol iechyd y GIG neu brif weithiwr proffesiynol yr Awdurdod Lleol sydd â dyletswydd cyfrinachedd sy'n cyfateb i weithiwr proffesiynol iechyd, fel arfer y gweithiwr allweddol.

2.3.8 Bydd pob sefydliad wedi sefydlu trefniadau i ddefnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) a/neu'r Llys Gwarchod i wneud penderfyniad os ceir gwrthdaro ynghylch rhannu gwybodaeth bersonol i gefnogi darparu gofal, cefnogaeth neu wasanaethau.

2.3.9 Fel arfer **ni chaiff** gwybodaeth bersonol am blant dan 16 ei rhannu heb ganiatâd y plentyn ei hun neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb riant.

2.3.10 Bydd PRhGau a CDDau unigol yn darparu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhannu gwybodaeth ynghyd â'r amgylchiadau pan ellir rhannu gwybodaeth heb ganiatâd.

2.4 Unigolyn Dynodedig

2.4.1 Wrth arwyddo'r Cytundeb, rhaid i bob sefydliad enwi "Unigolyn Dynodedig" a fydd yn gyfrifol am weithredu a monitro ymrwymadau'r sefydliadau. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o fabwysiadu a lledaenu fframwaith WASPI o fewn y sefydliad.

2.4.2 Yr Unigolyn Dynodedig fydd yn gyfrifol am fynd ati'n rheolaidd i fonitro ac adolygu cydymffurfiaeth â'r Cytundeb o fewn ei sefydliad a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion. Disgwylir iddo oruchwylio achosion o ddiffyg cydymffurfio yn fewnol neu o fewn sefydliadau partner.

2.4.3 Fel arfer, yr Unigolyn Dynodedig fydd yn gyfrifol am wybodaeth bersonol yn y sefydliad, er enghraifft; yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) neu'r Gwarcheidwad Caldicott.

- 2.4.4 Gall yr Unigolyn Dynodedig ddirprwyo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i unigolion â chyfrifoldeb gweithredol dros Lywodraethu Gwybodaeth a Diogelu Data.

2.5 Staff ac eraill sydd â mynediad at wybodaeth

- 2.5.1 Rhaid i bob sefydliad fod wedi sefydlu polisiau a gweithdrefnau gweithredol mewnol a fydd yn hwyluso prosesu yn effeithiol wybodaeth bersonol sy'n berthnasol i anghenion y sefydliad, ei Reolwyr, ei Ymarferwyr a'r defnyddwyr gwasanaethau.
- 2.5.2 Rhaid i gontractau staff gynnwys cymalau cyfrinachedd priodol sy'n rhoi manylion canlyniadau posibl datgelu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau yn amhriodol neu heb ganiatâd.
- 2.5.3 Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi cael cliriad diogelwch ar y lefel angenrheidiol.
- 2.5.4 Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol, ac yn deall goblygiadau:
- y Cytundeb hwn ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig. Dylai hyn gynnwys unrhyw ofynion gweithdrefnol cysylltiedig sy'n codi o'i weithredu;
 - y gyfraith sy'n berthnasol yn gyffredinol ac yng nghyswllt perfformiad pwerau statudol penodol a swyddogaethau'r sefydliad cyfranogol dan sylw;
 - Codau Ymarfer ac unrhyw ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig eraill.
- 2.5.5 Rhaid i bob sefydliad fod wedi sefydlu trefn ddisgyblu a fydd yn cael ei galw i rym os canfyddir bod aelod staff wedi torri cyfrinachedd defnyddiwr gwasanaethau neu wedi rhannu gwybodaeth mewn modd sy'n mynd yn groes i'r Cytundeb hwn.
- 2.5.6 Os bydd sefydliad partner yn dibynnu ar drydydd parti i brosesu gwybodaeth bersonol rhaid i'r sefydliad fod wedi sefydlu cytundebau cyfrinachedd a phrosesu data contractyddol priodol.

2.6 Hysbysiad y Ddeddf Diogelu Data

- 2.6.1 O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, rhaid i bob sefydliad sy'n prosesu gwybodaeth bersonol gael cofnod priodol (Hysbysiad) yn y "Gofrestr o Reolwyr Data" a reolir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, oni bai eu bod wedi'u heithrio. Cyfrifoldeb pob sefydliad yw sicrhau bod ei gofnod yn cael ei gadw yn gywir ac yn ddiweddar; mae methu â gwneud hynny'n drosedd.

2.7 Ceisiadau gwrthrych am wybodaeth

- 2.7.1 Bydd defnyddiwr gwasanaethau sy'n gwneud cais dilys o dan adran 7 o Ddeddf Diogelu Data 1998 am fynediad at eu gwybodaeth bersonol yn cael eu hysbysu'n llawn yn unol â'r Ddeddf, am y wybodaeth y mae sefydliad partner yn ei chadw amdanynt, yn amodol ar unrhyw eithriad(au) statudol perthnasol.
- 2.7.2 Fel arfer, ni fydd gwybodaeth bersonol a ddarperir gan sefydliad partner arall o dan swyddogaethau PRhG neu CDD yn cael ei datgelu i'r defnyddiwr gwasanaethau heb ganiatâd blaenorol y sefydliad darparu. Rhaid i bob sefydliad partner wneud hyn o fewn yr amserlenni statudol.
- 2.7.3 Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod ganddo bolisiau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn sicrhau bod ceisiadau gwrthrych am wybodaeth yn cael eu prosesu'n hwylus ac effeithiol.

2.8 Rhyddid Gwybodaeth

- 2.8.1 Bydd sefydliadau cyhoeddus cyfranogol yn cyfeirio at y Cytundeb hwn a dogfennau fframwaith eraill ar eu Cynllun Cyhoeddi o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y caiff ei gyhoeddi'n rhagweithiol yn unol â thelerau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 2.8.2 Os nad yw'r sefydliadau partner yn rhwym wrth y ddeddfwriaeth hon yna dylid parhau i ystyried cyfeirio at y wybodaeth hon ar eu gwefan os oes un ar gael.
- 2.8.3 Rhaid i bob sefydliad priodol sicrhau bod ganddo bolisiau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn sicrhau bod ceisiadau a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu'n hwylus ac effeithiol.

2.9 Rheoli Cofnodion

- 2.9.1 Gall gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu anghyfredol gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, felly mae pob sefydliad yn gyfrifol am ansawdd a chywirdeb y wybodaeth bersonol y mae'n ei phrosesu.
- 2.9.2 Os gwelir bod gwybodaeth a gedwir yn anghywir, rhaid i sefydliadau partner sicrhau bod eu cofnodion/eu systemau rheoli achosion yn cael eu cywiro neu eu diweddarau yn briodol. Os yw'n hysbys bod unrhyw barti arall wedi cael neu yn cadw'r wybodaeth honno, bydd y sefydliad yn cymryd camau rhesymol i'w hysbysu am unrhyw newidiadau y dylent eu gwneud.
- 2.9.3 Bydd gan bob sefydliad bolisiau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn egluro eu dull o gadw, storio a gwaredu cofnodion.

2.10 Diogelwch Gwybodaeth

- 2.10.1 Rhaid i bob sefydliad fod wedi sefydlu lefel ddiogelwch sy'n gymesur â sensitifrwydd a dosbarthiad y wybodaeth sydd i'w storio a'i rhannu.
- 2.10.2 Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod peirianweithiau wedi eu sefydlu i roi sylw i ddiogelwch ffisegol, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch, rheoli diogelwch, datblygu systemau, lefelau mynediad ymarferwyr/diogelwch yn ôl rôl, derbyn a throsglwyddo data a pholisïau diogelwch penodol i systemau.
- 2.10.3 Rhaid i bob sefydliad ystyried yr effaith ar breifatrwydd unigolion cyn datblygu unrhyw system TG newydd neu newid y ffordd y maent yn trin data personol.
- 2.10.4 Derbynnir y bydd pob sefydliad yn amrywio o ran maint a chymhlethdod a chaiff hyn ei adlewyrchu mewn unrhyw brosesau a lefelau diogelwch a sefydlir.

2.11 Codau Ymddygiad a Moeseg Broffesiynol

- 2.11.1 Bydd sefydliadau partner yn cydnabod bod gweithwyr proffesiynol unigol yn atebol i'w corff rheoleiddio proffesiynol i gydymffurfio gyda'u priod godau ymddygiad. Bydd pob sefydliad yn ystyried y gofynion hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth yn unol â hynny.

2.12 Achosion o ddiffyg cydymffurfio (sefydliad mewnol)

- 2.12.1 Bydd achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r fframwaith hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu cofnodi a'u hadrodd wrth yr Unigolyn Dynodedig. Ymdrinnir â phob achos yn brydlon yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y sefydliad.
- 2.12.2 Yn ogystal, pan fo diffyg cydymffurfio yn gyfystyr â chamymddwyn proffesiynol yn unol â diffiniad corff rheoleiddio priodol; yna disgwylir y bydd Unigolyn Dynodedig y sefydliad partner dan sylw yn hysbysu'r corff rheoleiddio perthnasol am yr achos hwnnw.

2.13 Achosion o ddiffyg cydymffurfio (sefydliadau partner)

- 2.13.1 Bydd achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r fframwaith hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig gan sefydliad partner yn cael eu hadrodd wrth Unigolion Dynodedig pob sefydliad. Ymdrinnir â phob achos yn brydlon yn unol â polisiau a gweithdrefnau cytunedig pob sefydliad partner.
- 2.13.2 Pryd bynnag y bo hynny'n briodol, gellir sefydlu cyfarfod ar gyfer Unigolyn Dynodedig pob sefydliad partner i ymchwilio i ddigwyddiadau o'r fath a chytuno ar ganlyniadau.

2.14 Pryderon a Chwynion

- 2.14.1 Ymdrinnir ag unrhyw bryderon neu gwynion a geir ynghylch prosesu/rhannu gwybodaeth bersonol yn brydlon ac yn unol â threfn gwyno fewnol y sefydliad partner hwnnw a, phryd bynnag y bo hynny'n briodol, gellir eu codi gydag Unigolyn Dynodedig sefydliad partner arall.

Atodiad 1 – Geirfa

Term	Diffiniad
Caniatâd	Mynegiant ar sail penderfyniad cytbwys y mae'r defnyddiwr gwasanaethau yn ei ddefnyddio i ddangos cytundeb a dealltwriaeth am sut y caiff gwybodaeth bersonol amdanynt ei phrosesu.
Gwybodaeth bersonol	<p>Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn, gan gynnwys delwedd ohonynt neu eu llais, sy'n galluogi iddynt gael eu hadnabod oddi wrth y wybodaeth honno ar ei phen ei hun neu oddi wrth y wybodaeth honno a/neu wybodaeth arall sydd ar gael i'r sefydliad.</p> <p>Mae'n cynnwys data personol yn ystyr Adran 1 o'r Ddeddf Diogelu Data ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ymadawedig.</p>
Defnyddwyr gwasanaethau	Term cynhwysol i ddisgrifio'r bobl hynny sydd â chysylltiad â sefydliadau darparu gwasanaethau yng Nghymru ac sydd â gwybodaeth wedi'i chofnodi amdanynt. Er enghraifft: gall sefydliadau unigol gyfeirio at y bobl hyn fel gwrthrychau data, cleifion, cleientiaid ac ati.
Ymarferydd	Term cynhwysol i ddisgrifio unrhyw staff sy'n gweithio i'r sefydliadau partner sy'n gysylltiedig â gofalu am y defnyddwyr gwasanaethau neu â darparu gwasanaethau iddynt. Er enghraifft: Swyddog yr Heddlu, gweithiwr iechyd proffesiynol, gweithiwr cymdeithasol, gwirfoddolwr ac ati.
Rheolwr Data	<p>Sefydliad fel arfer, ond gall fod yn unigolion hefyd, sy'n pennu'r dibenion ar gyfer dull o brosesu unrhyw wybodaeth bersonol.</p> <p>Rhaid i Reolwyr Data sicrhau bod unrhyw brosesau'n ymwneud â gwybodaeth bersonol y maent yn gyfrifol amdanynt yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.</p>

Proseswyr Data

Sefydliad sy'n prosesu data personol o dan contract i'r sefydliad rheoli data ac yn unol â chyfarwyddiadau'r sefydliad hwnnw. Nid oes gan broseswyr data ddiddordeb yn y data y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r contract. Ni chaniateir iddynt ddefnyddio'r data at eu dibenion eu hunain.

Trydydd sector

Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth o sefydliadau nad ydynt yn y sector cyhoeddus na phreifat. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill fel cymdeithasau, grwpiau hunangymorth, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol a chydweithfeydd.